CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Vice-Chancellor's Office
Swyddfa'r Is-Ganghellor

**Cardiff University**
Main Building
Park Place
Cardiff
CF10 3AT, Wales, UK

Email v-c@cardiff.ac.uk
**www.cardiff.ac.uk**

**Prifysgol Caerdydd**
Prif Adeilad
Plas y Parc
Caerdydd
CF10 3AT, Cymru, DU

E-bost v-c@caerdydd.ac.uk
**www.caerdydd.ac.uk**

31 Ionawr 2025

**Llythyr ymrwymo i flaenoriaethau'r Concordat er Cynaliadwyedd Amgylcheddol Ymchwil ac Ymarfer Arloesol**

Yr wyf i, **yr Athro Wendy Larner**, **Llywydd ac Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd**, yn cadarnhau ar ran y Brifysgol ein hymrwymiad i'r meysydd uchel eu blaenoriaeth yn y Concordat er Cynaliadwyedd Amgylcheddol Ymchwil ac Ymarfer Arloesol.

Mae **Prifysgol Caerdydd** yn llwyr gefnogi'r meysydd uchel eu blaenoriaeth yn y Concordat. Byddwn yn cyflawni'r holl flaenoriaethau hyn yn ymarferol ac yn cydnabod y cyfrifoldebau sydd gennym yn dilyn llofnodi'r Concordat.

Drwy lofnodi'r Concordat hwn, rydym yn cydnabod bod angen i ni newid sut rydym yn gwneud ymchwil, yn arloesi ac yn hyrwyddo atebion ehangach. Rydym hefyd yn cytuno i weithredu ar y cyd, nawr ac yn y dyfodol, i leihau ein hallyriadau a'n heffaith ein hunain ar yr amgylchedd a hefyd newid i arferion cynaliadwy.

A ninnau'n brifysgol sy'n cael ei hysgogi gan ei chenhadaeth ddinesig a'i hymrwymiad i genedlaethau'r dyfodol, rydym yn cydnabod ein rôl hollbwysig yn y gwaith o fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd drwy ein hymchwil, ein haddysg a'n gweithrediadau. Mae'r strategaeth 'Ein Dyfodol, Gyda'n Gilydd' yn pwysleisio bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn flaenoriaeth allweddol, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Gymru, y DU a'r byd. Mae ein hymchwil o safon fyd-eang ac yn ein galluogi i ddatblygu atebion i heriau mawr ym meysydd newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, iechyd, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol. Wrth ymuno â'r Concordat hwn, rydym yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i wneud ymchwil mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy wrth barhau i arloesi mewn ffordd ragorol sydd o fudd i gymdeithas a'r blaned.

Yn gywir,

Wendy Larner.

**Yr Athro Wendy Larner**
**Y Llywydd a'r Is-ganghellor**
**Prifysgol Caerdydd**

Stonewall HYRWYDDWYR AMRYWIAETH BYD-EANG GLOBAL DIVERSITY CHAMPION

ECU GENDER CHARTER Athena SWAN Bronze Award

QAA Cymru UK Quality Assured Sicrwydd Ansawdd y DU

Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The University welcomes correspondence in Welsh or English. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.

Elusen Gofrestredig, rhif 1136855
Registered Charity, no. 1136855